

**Cofnodion cyfarfod y Bwrdd Pensiwn Lleol a gynhaliwyd ar 7 Ebrill 2017
ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub, Parc Busnes Llanelwy**

YN BRESENNOL

Y Cyng. Delyth Macrae, Cynrychiolydd y Cyflogwr
Y Cyng. J Rodney Skelland, Cynrychiolydd y Cyflogwr
Dawn Docx, Dirprwy Brif Swyddog Tân
Julie Brown, Pennaeth Cyllid, yno i gynghori
Richard Fairhead, PSTC, Cymdeithas y Prif Swyddogion Tân, Cynrychiolydd y Gweithwyr
Gary Brandrick, PSTC, Cymdeithas y Prif Swyddogion Tân, Cynrychiolydd y Gweithwyr
Paul Scott, Cymdeithas y Swyddogion Tân, Cynrychiolydd y Gweithwyr
Parry Davies, Undeb yr FBU, Cynrychiolydd y Gweithwyr
Alwen Davies, Swyddog Cyswllt Aelodau, Cofnodydd

YMDDIHEURIADAU

Y Cyng. Brian Dunn, Cynrychiolydd y Cyflogwr
Y Cyng. W T Owen, Cynrychiolydd y Cyflogwr
Geraint Hughes, Cymdeithas y Swyddogion Tân, Cynrychiolydd y Gweithwyr
Blythe Roberts, Undeb yr FBU, Cynrychiolydd y Gweithwyr
Colin Everett, Clerc i'r Awdurdod
Ken Finch, Trysorydd i'r Awdurdod

Gan fod y Cadeirydd (y Cyng. W T Owen) yn absennol, dechreuodd y DBST y cyfarfod am 10.08am.

1 DATGAN BUDDIANNAU

1.1 Dim.

2 PENODI CADEIRYDD

2.1 Yn unol â'r cylch gorchwyl, mae cadeiryddiaeth y bwrdd yn cael ei gylchdroi bob dwy flynedd rhwng aelod sy'n cynrychioli'r cyflogwr ac un sy'n cynrychioli aelodau'r cynllun. Felly, diolchodd y DBST i'r Cyng. W T Owen am gadeirio'r cyfarfodydd dros y ddwy flynedd ddiwethaf, gan gynnwys mynychu cyfarfodydd Bwrdd Cynghori'r Cynllun Cymru gyfan, ac ategwyd hyn gan yr aelodau eraill.

2.2 Yna, gofynnodd y DBST am enwebiadau ar gyfer swydd y Cadeirydd. Fe wnaeth y PSTC Brandrick enwebu'r PSTC ac eiliwyd hyn gan P Scott. Nid oedd unrhyw enwebiadau eraill felly penderfynwyd yn unfrydol i benodi'r PSTC Fairhead.

Ar yr adeg hon, fe gymerodd y PSTC Fairhead yr awenau i gadeirio'r cyfarfod.

3 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

3.1 Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Tachwedd 2016 eu cymeradwyo'n gofnod cywir ac nid oedd unrhyw faterion yn codi.

4 ADRODDIAD BLYNYDDOL Y BWRDD PENSIWN LLEOL 2016-17

4.1 Cyflwynodd y DBST adroddiad blynyddol y Bwrdd Pensiwn Lleol sy'n rhestru gwaith y bwrdd yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf.

4.2 Fel y nodir yng nghylch gorchwyl y Bwrdd Pensiwn Lleol, mae'r adroddiad blynyddol yn cynnwys:

- crynodeb o waith y Bwrdd Pensiwn Lleol a chynllun gwaith ar gyfer y flwyddyn i ddod
- manylion meysydd pryder a adroddwyd i'r Bwrdd neu a godwyd gan y Bwrdd, a'r argymhellion a wnaed
- manylion unrhyw achosion o wrthdaro buddiannau sydd wedi dod i'r amlwg mewn perthynas ag aelodau unigol o'r Bwrdd Pensiwn Lleol, a sut y rheolwyd yr achosion hyn
- unrhyw feysydd risg neu bryder y mae'r Bwrdd yn dymuno eu codi gyda Rheolwr y Cynllun
- manylion yr hyfforddiant a gafwyd a'r anghenion hyfforddiant a ganfuwyd
- manylion unrhyw dreuliau a chostau a fu ar y Bwrdd Pensiwn Lleol, ac unrhyw dreuliau a ddisgwylir yn y flwyddyn i ddod.

4.3 **PENDERFYNWYD cytuno ar adroddiad blynyddol 2016/17 i'w gyflwyno i'r Awdurdod Tân ac Achub ym mis Mehefin 2017.**

5 HYSBYSU YNGHYLCH ACHOSION O DORRI'R GYFRAITH (MODIWL TPR) A PHOLISI CYMERADWYO ACHOSION O DORRI'R GYFRAITH

5.1 Aeth Pennaeth Cyllid â'r aelodau drwy'r modiwl ar hysbysu ynghylch achosion o dorri'r gyfraith ac yna cafodd yr asesiad ei gwblhau'n llwyddiannus. Hefyd, gofynnwyd i'r aelodau ystyried a chymeradwyo polisi a gweithdrefn GTAGC ar gyfer hysbysu'r Rheoleiddiwr Pensiynau am achosion o dorri'r gyfraith.

5.2 Roedd amcanion dysgu'r modiwl yn cynnwys pwy sy'n gorfod hysbysu ynghylch achosion o dorri'r gyfraith, y gofynion cyfreithiol ar gyfer hysbysu achosion o dorri'r gyfraith, sut i benderfynu a oes rhaid hysbysu ynghylch achos o dorri'r gyfraith, sut i gyflwyno adroddiad, pwysigrwydd gweithdrefnau digonol a sut i ddefnyddio fframwaith goleuadau traffig y rheoleiddiwr i helpu i benderfynu hysbysu ynghylch achos ai peidio.

5.3 Nodwyd:

- byddai'r Bwrdd Pensiwn Lleol yn cael ei hysbysu am achosion yn y categorïau coch neu felyn, a byddai'r categori gwyrdd yn cael ei drin yn fewnol a'i nodi.
- ni all gweithwyr hysbysu'r rheoleiddiwr pensiynau'n uniongyrchol. Rhaid gwneud hynny drwy reolwr y cynllun, cynrychiolydd y cyflogwr neu gynrychiolydd y gweithwyr.

5.4 **PENDERFYNWYD**

(i) nodi'r modiwl hyfforddiant ar dorri'r gyfraith;

(ii) cymeradwyo polisi a gweithdrefn GTAGC ar hysbysu'r Rheoleiddiwr Pensiynau am achosion o dorri'r gyfraith.

6 MODIWL HYFFORDDIANT DATA CYWIR AM AELODAU (MODIWL TPR)

- 6.1 Aeth Pennaeth Cyllid â'r aelodau drwy'r modiwl data cywir am aelodau, ac yna roedd yr asesiad wedi cael ei gwblhau'n llwyddiannus. Cydnabuwyd bod y maes hyfforddiant a'r gwaith yn bwysig iawn oherwydd gallai cael data anghywir am aelodau arwain at dorri'r gyfraith.
- 6.2 Nodwyd y byddai angen cadw data aelodau am nifer fawr o flynyddoedd (tua 90 mlynedd) mewn rhai achosion oherwydd gallai taliadau barhau yn dilyn marwolaeth yr aelod o'r cynllun pensiwn; felly ystyrid y dylai fod cysylltiad â pholisi'r Gwasanaeth ar ddiogelu a chadw data, a bod cyfeiriad at y mater yn y polisi hwnnw.
- 6.3 Cyn bo hir, bydd yr aelodau o'r cynllun pensiwn yn gallu cael mynediad drwy gyfleusterau ar-lein at eu gwybodaeth eu hunain am bensiynau; bydd yr aelodau hefyd yn gallu newid eu manylion personol drwy'r cyfleuster ar-lein, a gweld eu datganiad buddion blynyddol a gyhoeddir ym mis Awst bob blwyddyn. Argymhellwyd bod hyn yn parhau i gael ei hyrwyddo'n gyson yn y Briff Wythnosol er mwyn atgoffa'r staff i ddiweddarau a gwirio eu gwybodaeth eu hunain fel y bo'r angen.
- 6.4 **PENDERFYNWYD:**
(i) nodi'r modiwl hyfforddiant data cywir am aelodau;
(ii) cytuno y bydd y cyfleusterau ar-lein yn cael eu hyrwyddo drwy'r Briff Wythnosol.

7 ADRODDIAD CRYNODEB O ARCHWILIAD MEWNOL AR ANSAWDD DATA PENSIYNAU

- 7.1 Cyflwynwyd yr adroddiad i roi trosolwg o ganlyniad archwiliad mewnol a gynhaliwyd ym mis Mai 2016 i adolygu ansawdd data yn GTAGC er mwyn darparu lefel o sicrwydd i'r rheolwyr fod y rheolaethau mewnol yn gweithredu'n effeithiol, bod y risgiau posibl yn cael eu rheoli'n dda, a bod yr amcanion corfforaethol yn cael eu cyflawni. Hefyd, roedd yr adroddiad yn rhoi sicrwydd i aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol fod rheolaethau mewnol yn bodoli i fynd i'r afael â phroblemau data pensiynau y tynnwyd sylw atynt yn ystod yr archwiliad mewnol.
- 7.2 Roedd canfyddiadau'r archwiliad yn dangos bod rheolaethau allweddol yn bodoli i sicrhau bod yr amcanion yn cael eu cyflawni ac er mwyn amddiffyn rhag risgiau mawr y gellir eu rhagweld, ac maent yn cael eu dilyn yn gyson ac yn effeithiol gan arwain at raddiad sicrwydd Boddhaol. Gwnaethpwyd argymhellion, a bydd gweithredu'r rhain yn gwella'r rheolaethau mewnol sydd ar waith ac yn rhoi sicrwydd i'r rheolwyr fod systemau cadarn yn bodoli a bod mesurau priodol wedi cael eu cymryd i leihau'r risgiau a welwyd.
- 7.3 Trafod mater cofrestru awtomatig; tynnwyd sylw at y ffaith y byddai rhai sy'n dewis optio allan yn cael eu hail-wahodd i ymuno â'r cynllun dair blynedd yn ddiweddarach. Fe fyddai yna sbardunau eraill, fel newid swyddi, i roi cyfle iddynt gofrestru yn y cynllun pensiwn.
- 7.4 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth sydd yn yr adroddiad.**

8 ADRODDIAD CRYNO AM Y TREFNIADAU ARIANNOL AR GYFER PENSIYNAU DIFFODDWYR TÂN – GRANT ATODOL

- 8.1 Cafodd yr adroddiad ei gyflwyno i roi trosolwg o'r trefniadau ariannol sy'n bodoli i ymorol am gyfraniadau a thaliadau pensiwn.
- 8.2 Roedd yr aelodau'n ymwybodol fod awdurdodau tân ac achub yn gweinyddu ac yn talu pensiynau diffoddwyr tân, yn ogystal ag unrhyw bensiynau yn y dyfodol ar gyfer rhai sy'n ymuno o'r newydd o gronfa pensiwn leol arall ar gyfer diffoddwyr tân. Caiff cyfraniadau'r gweithiwr a chyfraniadau'r cyflogwr eu talu i'r gronfa pensiwn y caiff y pensiynau eu talu ohoni. Mae'r cyflogwr hefyd yn talu canran benodol sy'n cael ei hadolygu gan Adran Actiwari'r Llywodraeth bob tair blynedd; mae'r adolygiad nesaf i fod i gael ei gynnal eleni a bydd y canlyniad yn effeithio ar y taliadau o 2019 ymlaen. Fel y nodwyd eisoes, mae Llywodraeth Cymru'n ychwanegu at y gronfa os nad yw'r cyfraniadau'n ddigonol i gwrdd â chost taliadau pensiwn, a bydd Llywodraeth Cymru yn cael unrhyw arian sydd dros ben yn y gronfa. Rhagwelir y bydd Llywodraeth Cymru'n adolygu'r trefniant yn y dyfodol agos.
- 8.3 Dywedodd cynrychiolwyr y gweithwyr fod llawer o aelodau cynllun 1992 yn ystyried gadael y Gwasanaeth yn gynt na'r disgwyl; cadarnhaodd y Cadeirydd fod yr uwch swyddogion yn ymwybodol o'r mater a bod hyn yn cael ei gynnwys mewn trafodaethau am gynllunio olyniaeth. Cadarnhaodd y DBST fod y mater wedi cael ei drafod gan Fwrdd Cynghori'r Cynllun ac nad oedd yn cael ei ystyried yn broblem fawr gan fod unigolion yn gadael yn gynt yn golygu y byddai eu taliadau lwmp-swm, ynghyd â'u taliadau pensiwn wedi hynny, yn is.
- 8.4 Bydd yr aelodau'n cael crynodeb o'r gwahanol gronfeydd pensiwn yn y cyfarfod nesaf.
- 8.5 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.**

9 Y DIWEDDARAF GAN FWRDD CYNGHORI'R CYNLLUN

- 9.1 Roedd Bwrdd Cynghori'r Cynllun Cymru gyfan wedi cael cyflwyniad gan yr hyn sy'n cyfateb yn Lloegr; mae Bwrdd Cynghori Tân Lloegr wedi darparu cyllid i'w Fwrdd Cynghori'r Cynllun i sefydlu adnoddau arbenigol, gan gynnwys cymorth cyfreithiol a chreu gwefan i gynorthwyo'r ATAu i gyflawni eu dyletswyddau ym maes pensiynau. Ar ôl trafod hyn, roedd cynrychiolwyr o'r tri ATA yng Nghymru wedi cytuno i gyfrannu £14k tuag at y gwaith er mwyn cael mynediad at yr adnodd arbenigol.
- 9.2 Nodwyd y bydd cwrs hyfforddi Cymru gyfan ar bensiynau'n cael ei gynnal ar ôl yr etholiadau ar gyfer aelodau newydd ac aelodau sy'n dychwelyd.
- 9.3 Roedd y Bwrdd wedi cael gwybod am wahanol ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â phensiynau a gyhoeddwyd ac sydd i gael ei chyhoeddi.

10 UNRHYW FATER ARALL

- 10.1 Rhoddodd Pennaeth Cyllid wybod i'r aelodau fod cylchlythyr, yn dilyn dyfarniad y Goruchaf Lys, wedi cael ei gyhoeddi ar Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân 2007: enwebu partneriaid sy'n cyd-fyw. Yn achos Brewster (Gogledd Iwerddon), datganwyd bod cynllun pensiwn llywodraeth leol Gogledd Iwerddon wedi gwrthod pensiwn goroeswr yn anghyfreithlon i bartner a oedd yn cyd-fyw dim ond oherwydd nad oedd ffurflen enwebu wedi cael ei llenwi. Roedd cyfarwyddyd newydd wedi cael ei gyhoeddi erbyn hyn ynglŷn â delio â'r mater hwn.
- 10.2 Holodd Parry Davies am yr achos Norman v Swydd Gaer. Esboniodd y DBST fod yna gytundeb Cymru gyfan gydag Undeb yr FBU ai fod yn mater a fyddai'n cymryd amser i'w ddatrys. Fodd bynnag, nid oedd cyfyngiad amser a chaiff aelodau'r cynllun eu talu ar ôl cael consensws ynglŷn â pha agweddau ar dâl a fydd yn bensiynadwy. Cytunwyd y byddai y Pennaeth Cyllid a Parry Davies yn trafod y mater mewn cyfarfod arall.